Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
National Infrastructure Commission Wales

Cylch Gorchwyl
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
Paratoi Cymru ar gyfer Grŵp Cynghori ar Brosiect Ynni Adnewyddadwy 2050 (PAG)

Pwrpas a blaenoriaethau

1. Nod Grŵp Cynghori Prosiect NICW Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050 (a elwir o hyn ymlaen yn PAG ynni adnewyddadwy) yw:

a. Rhoi cymorth ac arweiniad i dîm(au) y prosiect i'w galluogi i wneud eu gwaith gyda chymaint o wybodaeth berthnasol ac amserol â phosibl
b. Rhoi mecanwaith ychwanegol i NICW o ddylanwadu, goruchwylio ac adrodd yn ôl i'r Comisiwn drwy aelodaeth y Comisiynydd o'r PAG

Cyfrifoldebau

2. Mae aelodau ynni adnewyddadwy NICW yn gyfrifol am:

a. Mireinio a chytuno ar gwmpas, gweledigaeth a chynnydd prosiect ynni adnewyddadwy NICW
b. Cytuno ar feini prawf monitro a gwerthuso i fonitro cynnydd y prosiect
c. Mynd ati'n rhagweithiol i nodi a rhannu gweithgarwch a materion sy'n berthnasol i helpu tîm y prosiect ynni adnewyddadwy i lywio eu gwaith gyda gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol o Gymru, ac o faterion strategol ehangach y DU
ch. Lle bo'n berthnasol, cefnogi gwaith i ddatblygu a lledaenu gwybodaeth am y prosiect, gan gynnwys hyrwyddo gwaith prosiect ynni adnewyddadwy NICW

3. Mae NICW yn gyfrifol am:

a. Cydgysylltu gwaith ynni adnewyddadwy NICW drwy ddarparu'r ysgrifenyddiaeth a'r Comisiynydd(wyr) i Gadeirio a helpu i gefnogi'r PAG ynni adnewyddadwy yn ei ddiben
b. Cyflawni allbynnau prosiect y cytunwyd arnynt, i'w penderfynu o fewn cwmpas PAG ynni adnewyddadwy NICW

Aelodaeth

4. Penodir Cadeirydd y grŵp gan NICW.

5. Bydd aelodau o PAG ynni adnewyddadwy NICW yn cael eu penodi gan NICW. Penodir aelodau fel unigolion ac ni dderbynnir dirprwyon.

6. Nod y grŵp yw elwa o arbenigedd trawstoriad amrywiol, eang o arbenigwyr o'r sector preifat, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r byd academaidd.

7. Rydym yn disgwyl y bydd hyd y prosiect tua deuddeg mis, ac y bydd gan y PAG hyd oes tebyg (cynllun prosiect/amserlen i'w atodi).

Atebolrwydd

8. Bydd PAG ynni adnewyddadwy NICW yn adrodd i gyfarfodydd misol NICW drwy'r Comisiynwyr.

9. Bydd aelodau'r PAG yn gwneud datganiadau amserol, llawn ac agored o unrhyw fuddiannau neu ganfyddiad sy'n gwrthdaro, a allai lesteirio eu heffeithiolrwydd yng nghyd-destun eu rôl o fewn y PAG.

10. Gellir ystyried cylch gorchwyl i'w adolygu gan y PAG ynni adnewyddadwy os yw hyd oes y prosiect yn ymestyn y tu hwnt i ddeuddeg mis, neu lle mae amgylchiadau cyflawni'r prosiect yn wahanol iawn i'r rhai a ddiffinnir ar y dechrau.

Ffyrdd o weithio

11. Bydd PAG ynni adnewyddadwy NICW yn cyfarfod yn rhithiol (ar-lein), yn fras bob mis.

12. Ni ddylid trefnu cyfarfodydd mwy na dwy awr.

13. Gellir cynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen i hyrwyddo'r diben.

14. Bydd NICW yn cynhyrchu agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd gyda chymaint o rybudd â phosibl cyn cyfarfod.

15. Bydd NICW yn darparu cofnod cryno o'r cyfarfodydd a'r camau y cytunwyd arnynt, ac yn dosbarthu'r nodiadau i'r PAG unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cytuno arnynt.
16. Mae nodiadau cyfarfodydd yn gyfrinachol ac ni ddylid eu rhannu y tu hwnt i aelodaeth y grŵp.

17. Pan fo aelodau'r grŵp wedi cytuno ar y cyfrifoldeb dros gymryd camau y cytunwyd arnynt, dylent adrodd yn ôl i Gadeirydd PAG.

18. Mae aelodaeth o'r PAG yn swydd wirfoddol; Nid yw NICW yn gallu darparu tâl am bresenoldeb.

NICW
Gorffennaf 2022